Rhif Awdurdodi: IMP/GEN/2010/07

**YR ADRAN MATERION GWLEDIG LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**
**Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**

# RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N DOD O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) 2007 (DIWYGIO)

## AWDURDODI MEWNFORIO CYFFREDINOL

Mae Gweinidogion Cymru, drwy'r awdurdodiad hwn a gyflwynir yn unol â thelerau Rheoliad 4 Rheoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 (diwygio) yn awdurdodi cludo i Gymru'r cynnyrch canlynol, yn amodol ar ac yn unol â'r amodau a bennir isod:

| | |
|---|---|
| Organau, chwarennau, gwaed neu feinweoedd eraill sydd wedi'u trin â gwres, neu gynhyrchion sy'n dod o'r meinweoedd hyn o garnolion a anwyd ac a fagwyd mewn caethiwed nad ydynt wedi'u heintio, neu nad ydynt o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio â phathogenau anifeiliaid penodedig, y bwriedir eu defnyddio at ddibenion addysgiadol, gwaith ymchwil, ac amgueddfeydd yn unig. | Cynnyrch |

o

| | |
|---|---|
| Awstralia, Canada, Gwlad yr Ia, Norwy, Seland Newydd ac Unol Daleithiau America | Gwledydd y tarddiad |

wrth

| | |
|---|---|
| y ffin rhwng Cymru a Lloegr | Mannau mynediad |

hyd nes ceir rhybudd pellach neu hyd nes i Weinidogion Cymru ddiddymu'r awdurdodiad.

Dyddiad: 2 Mawrth 2010

Swyddog yr Adran Materion Gwledig
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Yr amodau sydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad hwn**

1. Mae’r awdurdodiad hwn yn ddilys ar gyfer llwythi lluosog, ac ni all pwysau net y cynnyrch a fewnforiwyd fesul llwyth fod yn fwy na 15 kg.

2. Mae’n rhaid i bob llwyth gynnwys y canlynol:

   - copi o’r awdurdodiad hwn

   - dogfennau masnachol/cludo yn nodi enw a chyfeiriad y sawl sy’n anfon y llwyth, y sawl sy’n ei dderbyn, enw’r cynnyrch a faint sy’n cael ei anfon;

3. Mae’n rhaid i bob llwyth gynnwys datganiad (gweler nodyn i) a lofnodwyd gan filfeddyg neu gyfarwyddwr y labordy/sefydliad allforio yn cadarnhau:

   - bod y cynhyrchion yn dod o anifeiliaid a anwyd ac a fagwyd ar wahân i anifeiliaid eraill na chawsant eu geni a’u magu ar wahân.
   - nad yw’r cynhyrchion yn dod o anifeiliaid sydd wedi’u heintio, neu sydd o dan amheuaeth o fod wedi’u heintio â phathogen anifeiliaid penodedig (e.e. y gynddaredd) a restrir gan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008.
   - nad yw’r anifeiliaid wedi cael eu cadw gydag anifeiliaid sydd wedi’u heintio â phathogenau anifeiliaid neu ddynol penodedig, neu sydd o dan amheuaeth o fod wedi’u heintio felly, ac nad ydynt wedi’u defnyddio mewn arbrofion yn cynnwys pathogenau byw a restrir yng Ngorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 (gweler nodyn 6).
   - bod y cynnyrch wedi’i drin â gwres hyd at o leiaf 56°C am o leiaf 30 munud.

4. Ni ddylid defnyddio’r awdurdodiad hwn ar gyfer anifeiliaid nad ydynt wedi’u geni a’u cadw mewn caethiwed.

5. Ni ellir defnyddio’r awdurdodiad hwn ar gyfer sbesimenau o anifeiliaid sydd, neu a oedd, wedi’u heintio â phathogen anifeiliaid penodedig, (gweler nodyn cyffredinol 5 am wybodaeth bellach).

6. Mae’n rhaid labelu’r deunydd pacio yn glir er mwyn nodi rhif awdurdodi cyffredinol y cynnyrch a fewnforiwyd. Dylai’r label nodi hefyd bod y deunydd i’w fewnforio i’r Deyrnas Unedig at ddibenion ymchwil.

7. Mae’n rhaid cadw’r cynhyrchion yn eu deunydd pacio gwreiddiol bob amser nes eu bod yn cyrraedd safle’r gyrchfan.

8. Mae’n rhaid cludo pob pecyn yn uniongyrchol o’r mannau mynediad i’r DU i safle’r gyrchfan.

9. Ni ddylai’r llwyth na’i ddeunydd pacio ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid cnoi cil, moch, dofednod neu geffylau.

10. Ni fydd unrhyw un o'r cynhyrchion y mae'r awdurdodiad hwn yn cyfeirio atynt yn cael eu bwyta gan bobl o dan unrhyw amgylchiadau.

11. Ar ôl cwblhau'r profion, mae'n rhaid i unrhyw weddillion o'r cynnyrch a'r hyn sy'n weddill o'r deunydd pacio gael eu llosgi'n ulw mewn safle sydd wedi'i gymeradwyo i waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid (gweler nodyn 5), eu hawtoclafio neu eu hail-allforio (gweler nodyn 10).

12. Os oes clefyd hysbysadwy/addroddadwy yn datblygu yn y wlad/gwledydd allforio, gall amodau'r awdurdodiad hwn newid. Os yw hynny'n digwydd, dylech gysylltu ag Iechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod. I gael gwybodaeth am glefydau anifeiliaid ewch i:
http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/disease/?lang=cy

13. Os yw'r cynnyrch yn cael ei gyflenwi i sefydliad arall, mae'n rhaid i'r mewnforiwr hysbysu'r sawl sy'n ei dderbyn am yr angen i ddinistrio neu ail-allforio gweddillion y cynnyrch (gweler nodiadau 5 a 10).

14. Defnyddir cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio o dan yr awdurdodiad hwn at ddibenion ymchwil, addysg neu amgueddfeydd yn unig. Mae'n rhaid i bob parti sy'n trin y cynnyrch gadw trywydd cofnodi/archwilio cyflawn. Ni ellir cyflenwi cynhyrchion i drydydd parti fel trafodyn masnachol o dan unrhyw amgylchiadau.

15. Os na allwch gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad ar unrhyw adeg; neu os canfyddir unrhyw bathogen anifeiliaid didrwydded yn y cynnyrch a fewnforiwyd, rhaid atal y gwaith ar unwaith a hysbysu'r Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol yn syth. http://www.defra.gov.uk/animalhealth/about-us/contact-us/search/

16. Mae'r mewnforiwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn/unigolion sy'n anfon y cynnyrch i'r DU yn ymwybodol o amodau'r awdurdodiad hwn.

17. Mae'n rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol os ydych yn bwriadu defnyddio'r awdurdodiad hwn (gweler nodyn cyffredinol 8)

18. Dylid sicrhau bod unrhyw gynnyrch ac unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r cynnyrch a fewnforir o dan yr awdurdodiad hwn ar gael i'w harchwilio gan Swyddog Iechyd Anifeiliaid os oes angen mewn lle a enwir ganddo. Bydd y mewnforiwr neu ei asiant yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen ar y swyddog, fel y gall archwilio'r cynnyrch fel y gwêl yn dda. Y mewnforiwr fydd yn gyfrifol am gostau archwiliad o'r fath.

**NODIADAU**

i. Gweler y ddolen hon am arweiniad a thempled y datganiad.
ii. Cyfrifoldeb y mewnforiwr yw sicrhau bod yr allforiwr yn darparu'r datganiad gofynnol y cyfeiriwyd ato uchod.
iii. Ni ellir defnyddio'r awdurdodiad hwn ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid na chawsant eu geni a'u magu mewn caethiwed.
iv. Os ydych chi am fewnforio organau, chwarennau, gwaed neu feinweoedd eraill, neu gynhyrchion sy'n dod o'r meinweoedd hyn sy'n dod o garnolion a phrimatiaid o wlad wahanol i'r rhai a enwir uchod, dylech gysylltu ag Iechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod.

**NODIADAU CYFFREDINOL**

1. Nid oes unrhyw beth yn yr awdurdodiad hwn a fyddai'n eich eithrio rhag unrhyw waharddiad neu gyfyngiad a orfodir gan unrhyw ddeddf arall, gan gynnwys: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a'r Rheoliadau a gyflwynwyd yn ei sgil, Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) 1995, Rheoliadau Awdurdodi Marchnata Cynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol 1994, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol, y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl neu unrhyw reoliad sy'n disodli neu'n diwygio'r uchod.

2. Rhoddir yr awdurdodiad hwn o dan ddeddfwriaeth fewnforio sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid ac nid yw'n eich eithrio rhag gwaharddiad, rheoliad na chyfyngiad a roddir gan Adran o'r Llywodraeth neu Asiantaeth arall.

3. Mae amodau'r awdurdodiad hwn yn gyfredol adeg ei gyhoeddi, ond mae amodau awdurdodiad yn gallu cael eu newid yn aml a chynghorir mewnforwyr i holi'r Tîm Mewnforio Iechyd Anifeiliaid am y sefyllfa ddiweddaraf (gweler isod).

4. Mae rhestr o safleoedd llosgi'n ulw cymeradwy ar gael ar wefan DEFRA: http://www.defra.gov.uk/foodfarm/byproducts/incinerators/index.htm

5. Mae gwybodaeth bellach am fewnforio Pathogenau Anifeiliaid Penodedig ar gael ar wefan Defra yn:
   http://www.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/diseases/pathogens/index.htm
   Mae copi o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 ar gael ar y wefan ganlynol:
   http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2008/wsi_20081270_en_1

6. Mae'r awdurdodiad hwn yn ymwneud â chynhyrchion anifeiliaid yn unig. Os ydych chi am fewnforio anifeiliaid byw o'r rhywogaethau a restrir uchod, dylech gysylltu ag Iechyd Anifeiliaid yn y cyfeiriad isod.

7. Os yw'r cynnyrch yn cael ei ail-allforio, dylech sicrhau bod y wlad sy'n ei fewnforio yn caniatáu hynny a bod gennych y gwaith papur priodol ar gyfer y llwyth.

8. Mae'r trefniadau hysbysu'n destun arolwg ar hyn o bryd a gallent newid. Darllenwch y canllawiau i weld y drefn bresennol.

**RHYBUDD**

Cyfrifoldeb y mewnforiwr yw sicrhau bod unrhyw beth a fewnforir sy'n perthyn i'r awdurdodiad hwn yn cydymffurfio â'r amodau a'r telerau fel y'u nodir.

Os ydych yn torri unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â'r awdurdodiad hwn, byddwch yn troseddu yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

**MANYLION CYSWLLT I GAEL GWYBODAETH BELLACH**

Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid
Tîm Mewnforio Iechyd Anifeiliaid
Beeches Road
Chelmsford
Essex
CM1 2RU

Ffôn: 01245 454860

Ffacs: 01245 351162

e-bost: APIChelmsford@animalhealth.gsi.gov.uk